

Twyll Cludo

Yr hyn sydd angen i chi ei



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Yn y mwyafrif o achosion o dwyll cludwyr, mae twyllwr yn ffonio'u dioddefydd ac yn honni eu bod o'r banc, yr heddlu neu awdurdod gorfodi'r gyfraith arall. Yna maen nhw'n twyllo'u dioddefydd i ddatgelu eu PIN a manylion eu cerdyn credyd neu ddebyd. Yn drist iawn, dioddefwyr mwyaf cyffredin twyll cludwyr yw'r henoed.

Engbreiffiau o dwyll cludwyr

Mae twyllwr yn eich ffonio, yn honni bod o'ch banc neu'n swyddog heddlu. Maen nhw'n dweud naill ai:

- bod taliad twyllodrus wedi ei weld ar eich cerdyn sydd angen ei ddatrys
- bod rhywun wedi ei arestio'n defnyddio eich manylion a'ch cardiau

Efallai y byddant yn gofyn i chi ffonio eich banc gan ddefnyddio'r rhif ar gefn eich cerdyn. Y mae hyn yn eich darbwylo bod yr alwad yn ddilys. Ond mae'r twyllwr wedi cadw'r alwad ar agor ar eu hochr nhw, felly pan fyddwch yn gwneud yr alwad, heb yn wybod i chi byddwch yn cael eich cysylltu'n syth nôl iddyn nhw neu eu ffrindiau.

Byddant naill ai'n gofyn i chi am eich PIN neu'n gofyn i chi ei bwyso i mewn i'ch ffôn.

Ni fydd unrhyw fanc neu wasanaeth cyfreithlon fyth yn gofyn i chi am eich PIN.

Yna bydd y twyllwr yn anfon cludwr neu dacs i gasglu'r cerdyn o'ch cartref. Mae'n bosibl na fydd y gyrrwr hyd yn oed yn gwybod eu bod yn cael eu defnyddio fel rhan o'r sgam. Unwaith fod gan y twyllwr eich cerdyn a'ch PIN gallant wario eich arian.

Cofiwch:

Ni fydd yr heddlu, neu eich banc, fyth yn gofyn i chi dynnu arian neu ei drosglwyddo i gyfrif gwahanol. Hefyd, ni fyddant byth yn gofyn i chi ddatgelu eich cyfrinair bancio llawn neu eich PIN.



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Fersiwn gwahanol o'r sgam hwn yw pan gysylltir â chi a dweud wrthyfch fod aelod llwgr o staff yn eich banc, swyddfa bost neu bureau de change a bod yr heddlu eisiau eich cymorth i'w hadnabod.

Byddant yn gofyn i chi dynnu swm mawr o arian, y bydd yr heddlu neu'r banc yn ei farcio, ac yna'n rhoi nôl yn y system fancio. Byddant yn dweud y bydd hyn yn eu helpu i adnabod yr unigolyn llwgr. Unwaith y byddwch yn rhoi'r arian, bydd y twyllwyr yn syml iawn yn mynd ag ef.

Enghraifft arall yw pan fydd swyddog heddlu ffug yn eich ffonio neu'n dod atoch ac yn gofyn i chi brynu oriawr ddrud neu eitem werthfawr arall, er mwyn canfod a yw nwyddau ffug yn cael eu gwerthu.

Unwaith i chi brynu'r eitem, bydd y twyllwr yn dweud wrthyfch am ei roi i yrrwr taci er mwyn ei drosglwyddo i'r heddlu. Bydd yr eitem ddrud, wrth gwrs, yn cael ei gludo i bartner y twyllwr.

Y fersiwn diweddaraf yw pan mae twyllwr yn cysylltu â chi ac yn dweud bod eich cyfrif banc wedi ei feddiannu a bod angen i chi drosglwyddo'r arian i gyd i 'gyfrif diogel'. Wrth gwrs, mae'r cyfrif newydd yn cael ei weithredu gan y twyllwyr, sydd yna'n dwyn yr arian.

Cofiwch: Ni fydd yr heddlu, neu eich banc, fyth yn gofyn i chi dynnu arian neu ei drosglwyddo i gyfrif gwahanol. Hefyd, ni fyddant byth yn gofyn i chi ddatgelu eich cyfrinair bancio llawn neu eich PIN.

Reportiwch sgamiau i Heddlu Dyfed Powys:

<https://www.dyfed-powys.police.uk/en/contact-us/report-an-incident/>

neu ffoniwch 101

#TwyllCludo

Collodd

ddioddefwyr twyll

cludo gyfartaledd

o £8,346



Heddlu Police
DYFED-POWYS



Ni fydd eich banc na'r heddlu byth yn:

- Ffonio i ofyn am eich PIN llawn na'ch cyfrinair bancio llawn
- Gofyn i chi drosglwyddo arian o'ch cyfrif
- Anfon rhywun i'ch cartref i gasglu arian, rhifau PIN, cardiau na llyfrau sic